General Optical Council

**Polisi ar gadw a dileu cofrestreion mewn achosion Addasrwydd i Ymarfer**

## 1. Datganiad Polisi a Phwrpas

1.1 Caiff y cofrestrydd gadw cofrestreion nad ydynt yn bodloni gofynion cofrestru'r Cyngor Optegol Cyffredinol, er mwyn i unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u haddasrwydd i ymarfer gael eu hystyried yn briodol gan gynnwys, lle bo angen, mewn gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

1.2 Ar ôl cwblhau'r achos addasrwydd i ymarfer, bydd y cofrestrydd yn ailystyried y mater: os yw budd y cyhoedd yn dal i fynnu bod unrhyw gofrestreion o'r fath yn cael eu cadw, byddant yn cael eu cadw; os na fyddant, byddant yn cael eu dileu am fethu â bodloni gofynion cofrestru'r Cyngor Optegol Cyffredinol.

1.3 Mae'r polisi hwn yn gyson ag amcan cyffredinol y Cyngor o dan Ddeddf Optegwyr 1989 ynghylch amddiffyn y cyhoedd.

## 2. Cwmpas a Diffiniadau

2.1 Mae "achos addasrwydd i ymarfer" yn golygu unrhyw amgylchiadau lle mae gwybodaeth wedi dod i sylw'r Cyngor Optegol Cyffredinol a all godi amheuaeth ynghylch addasrwydd cofrestrai i ymarfer, addasrwydd i hyfforddi neu addasrwydd i gynnal busnes, ac mae'n cynnwys achos yn erbyn cofrestrai o dan Orchymyn Cyngor 2007 (Addasrwydd i Ymarfer).

2.2 Ystyr "casgliad yr achos addasrwydd i ymarfer" yw:

- Penderfyniad y Cyngor Optegol Cyffredinol i beidio â chyfeirio mater at Archwilwyr Achos, neu
- Penderfyniad yr Archwiliwr Achos i beidio â chyfeirio mater at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, neu
- Penderfyniad y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ar amhariad y cofrestrai a sancsiynu os yn briodol, a therfyn amser y cyfnod apelio os oes un.

## 3. Proses

3.1 Lle bo'r cofrestrydd yn penderfynu cadw cofrestrai nad yw wedi bodloni'r gofynion cofrestru, gall y Cyngor Optegol Cyffredinol gymryd un neu ragor o'r camau canlynol:

- Lle bo’r cofrestrai yn unigolyn, gofyn am ymrwymiad i beidio â chyflawni unrhyw weithgareddau sy’n gofyn am gofrestriad â’r Cyngor Optegol Cyffredinol

- Gwneud cais am orchymyn atal dros dro os yw'n briodol (gyda chofrestreion unigol, gall hyn fod yn briodol os yw'r unigolyn yn gwrthod darparu ymgymeriad neu'n torri telerau'r ymgymeriad)
- Peidio â chynnwys enw'r cofrestrai mewn chwiliadau ar-lein o'r gofrestr
- Darparu gwybodaeth berthnasol i unrhyw un sy'n holi am statws y cofrestrai, gan gynnwys y rhan berthnasol o'r gofrestr (e.e. optegydd cyflenwi cofrestredig neu optometrydd cofrestredig gydag arbenigedd therapiwtig ayb) ac unrhyw gyfyngiadau sy'n effeithio ar y cofrestriad, gan gynnwys yn unol ag ymgymeriad.
- Cynnwys gwybodaeth y cofrestrai mewn data cofrestru, gan gynnwys mewn copi o'r gofrestr gyfan neu ran ohoni a roddir i drydydd partïon o dan gytundeb trwydded data.

3.2 Pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu tynnu cofrestrai o'r fath oddi ar y gofrestr ar ôl i'r achos addasrwydd i ymarfer ddod i ben:

- Bydd y cofrestrai yn derbyn hysbysiad dan Reolau Cofrestru 2005
- Gall y cofrestrai wedyn wneud cais i'r cofrestrydd i gael ei adfer i'r gofrestr.

## 4. Adolygu'r polisi hwn

4.1 Byddwn yn adolygu'r polisi hwn bob tair blynedd, neu'n gynt os yw'n briodol, gan ystyried adborth ar y polisi, newidiadau i ddeddfwriaeth ac arferion rheoleiddio cyfredol.